

Oeddech chi'n gwybod?

Mae dros **2,000** o gymwysterau galwedigaethol yn yr Alban wedi'u datblygu gan ddefnyddio SGC.

Mae SGC yn tanategu'r **214** o fframweithiau prentisiaeth sydd ar gael yng Nghymru.

Mae SGC yn darparu'r sylfaen ar gyfer tua **63%** o'r galwedigaethau ar draws y DU.

Beth yw SGC?

Mae SGC yn disgrifio'r hyn y mae angen i unigolyn ei wneud, ei wybod a'i ddeall i gyflawni tasg waith yn gymwys.

Heb SGC, gallai safonau perfformiad yn y gweithle lithro, camgymeriadau'n cael eu gwneud, a gallai damweiniau ddigwydd.

Mae SGC yn helpu i ddiffinio'r disgwyliadau mewn swydd ac yn gwneud sgysiau ynghylch perfformiad rhwng rheolwr ac unigolyn yn llawer haws ac yn gliriach.

Caiiff SGC eu datblygu a'u hadolygu gan gyflogwyr a chynrychiolwyr y sector i sicrhau bod y safonau'n berthnasol ac yn gyfredol. Mae cyfraniad cyflogwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau bod SGC yn briodol ac yn adlewyrchu'r arferion presennol yn ogystal â rhagweld anghenion o ran sgiliau sy'n dod i'r amlwg ar draws sectorau.

CENEDLAETHOL - maent yn cael eu datblygu a'u cynnal gan grwpiau o gyflogwyr o bob rhan o'r DU, felly cânt eu cydnabod ledled y DU. Mae hyn hefyd yn golygu y gellir trosglwyddo'r sgiliau y mae SGC yn eu cynrychioli o gyflogwr i gyflogwr ledled y wlad gyfan.

GALWEDIGAETHOL - maent yn nodi popeth y dylai rhywun ei wybod a gallu ei wneud mewn galwedigaeth.

SAFONAU - maent yn disgrifio lefel y perfformiad sy'n ofynnol er mwyn bod yn gymwys mewn galwedigaeth.

Pwy sy'n defnyddio SGC a sut maen nhw'n cael eu defnyddio?


Gellir defnyddio SGC mewn sawl ffordd wahanol ac maent yn adnodd defnyddiol iawn i lawer o wahanol bobl a sefydliadau.

Gall cyrff dyfarnu ddefnyddio SGC i ddatblygu cymwysterau, a gellir eu defnyddio hefyd i ddatblygu prentisiaethau a rhaglenni hyfforddi.

Oes gennych chi gymhwyster galwedigaethol? Os oes, mae siawns dda bod eich cymhwyster yn seiliedig ar SGC!

Gall darparwyr addysg a hyfforddiant ddefnyddio SGC i ddatblygu cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau a phrentisiaethau. Byddant yn helpu unigolion i gael swydd, symud ymlaen mewn swydd a rhoi hyder i gyflogwyr eu bod yn cyflogi rhywun sydd â'r sgiliau cywir.

SGC yw sylfaen ystod eang o atebion hyfforddi a dysgu.



Mae cyflogwyr a busnesau yn defnyddio SGC i nodi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt yn eu gweithlu; asesu'r sgiliau sydd ganddynt ar hyn o bryd a nodi a oes unrhyw fylchau. Yna gallant ddefnyddio SGC i ddatblygu cynlluniau hyfforddi a recriwtio i lenwi unrhyw fylchau a phrinderau a nodwyd ac ysgrifennu disgrifiadau swydd clir. Gan fod SGC yn safonau perfformiad, gallant hefyd fod yn sail ar gyfer pennu amcanion a chynnal adolygiadau perfformiad.



Os bydd aelod o'n fîm ni am newid rôl, byddaf yn eistedd i lawr gyda'r person yna ac yn mynd drwy'r safonau i'n helpu i nodi eu sgiliau a'u gwybodaeth a sut y byddent yn ffio rôl arall." Dywed Dennis ei fod yn argymhell y safonau i gydweithwyr o fewn ei sefydliad a'r tu allan iddo.

Dennis Weinreich,

Rheolwr Gyfarwyddwr
Ôl-gynhyrchu Ffilm a Theledu,
Grŵp Stiwdios Pinewood



Gall Cyngorwyr Gyrfaoedd hefyd ddefnyddio SGC i ddisgrifio galwedigaeth a matsio unigolion a'u sgiliau i swyddi a gyrfaoedd pan fyddant yn cynghori pobl ynglŷn ag opsiynau

Ble alla i ddod o hyd i SGC?

Gallwch fynd at wefan SGC yma:

www.ukstandards.org.uk

ac mae'n cynnwys yr holl SGC sydd wedi'u datblygu gan gyflogwyr.

Mae'r gronfa ddata yn hawdd i'w defnyddio ac yn eich galluogi i chwilio am safonau ar draws ystod eang o alwedigaethau yn rhad ac am ddim.

Ydych chi eisiau mwy o wybodaeth am SGC?

Yn ogystal â'r SGC, mae'r wefan yn cynnwys ystod eang o wybodaeth ddefnyddiol gan gynnwys cysylltiadau defnyddiol, newyddion a digwyddiadau sydd ar y gweill.

Mae'r holl wybodaeth yn rhad ac am ddim ac yn hawdd ei chyrraedd ar

www.ukstandards.org.uk